PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 8 | Chwefror 23, 2023 | 50c.

## Estyn allan

Mae'n fis Chwefror yn barod! Beth? Ble mae Ionawr wedi hedfan? Ar ddechrau'r flwyddyn newydd, myfyriwn ar y llynedd ... ac yn naturiol, nid ychwaith ar y pethau cadarnhaol bob tro. Er hyn, rheidrwydd yw myfyrio ar y pethau cadarnhaol yn ein capeli hynny yw, y pethau a AETH YN DDA yn 2022.

Tybed, pa lwyddiant oedd yn eich capel chi'r llynedd ... pa bobl newydd a ddaeth i'w Gysegr am y tro cyntaf? Pa bobl a gafodd fendith o fod yn Ei Dŷ, gyda chi?



Dyma felly pam y dylem roi pwysigrwydd mawr i ESTYN ALLAN yn ein cymunedau – yn enwedig adeg y Nadolig. Yn Saron Creunant gwelwyd llawer iawn o bobl yn dod trwy ddrysau'r capel am y tro cyntaf erioed ar gyfer yr amrywiaeth o oedfaon dros yr ŵyl, gan gynnwys ein Carolau o amgylch y golfen gyda mins peis a gwin poeth.

Cynhaliwyd grŵp crefft yn y festri dros y misoedd yn arwain lan at y Nadolig ac mi roedd hyn yn gyfle i aelodau a chyfeillion y capel i ddod ynghyd i ddylunio a chreu cardiau Nadolig i'w gwerthu yn ein bore coffi ... dros ddisgled wrth gwrs! Am hyfryd, ac am syniad syml ond llwyddiannus i ddod a phobl ynghyd! Y gobaith yw parhau gyda'n Clwb Crefft eleni – yn barod i ddathlu'r Pasg gyda chardiau lliwgar yr aelodau ar werth yn y bore coffi.

Beth a fedrwch chi wneud yn eich eglwys chi eleni er mwyn ceisio estyn allan at eraill? Mi fydd y Pasg yma'n gyflym! Dechreuwch feddwl ...

**William Rhys Locke**



## Sardis Pontypridd

Y mae Eglwys Sardis, Pontypridd wedi penderfynu eu bod am ddirwyn yr achos i ben. Sardis yw'r eglwys olaf cyfrwng Cymraeg yn y dref.

Cynhelir yr oedfa ddatgorffori ar brynhawn Sul 5 Mawrth am 2.30 yn y festri o dan arweiniad y Parch. Allan Pickard.

## WALFORD DAVIES 1936–2023



Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys iawn gyda Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, y Parchg Beti-Wyn James, ar farwolaeth ei thad, Walford Davies. Yn enedigol o Gwm Tawe, roedd Walford nawr yn byw yn Tŷ Rhys, Caerfyrddin.

Dymunwn bob cysur i Beti-Wyn, Elin a Sara yn eu galar.

## Ymdrech ddyngarol yn Nhwrci a Syria

Wrth ysgrifennu'r geiriau hyn y mae cyfanswm y marwolaethau wedi cyrraedd 42 o filoedd, o ganlyniad i'r daeargryn mawr yn Nhwrci a Syria. Mae'r rhif hwn yn debygol o godi eto wrth i fwy o gyrff gael eu canfod, ac eraill yn marw oherwydd diffyg gwasanaethau argyfwng digonol. Amcangyfrifir bod y daeargryn wedi effeithio ar tua 17 miliwn o bobl, gyda llawer wedi colli eu cartrefi a llawer iawn mwy wedi gorfod ffoi oherwydd bod yr isadeiladedd yn beryglus. Gyda chynifer yn ddigartref, mae'r tywydd oer a rhewllyd ac eira yn gwneud y gwaith yn fwy heriol. Bu arweinwyr Syria yn gyndyn i ganiatáu cymorth dyngarol i mewn o gwbl, ond erbyn hyn mae'r Cenhedloedd Unedig wedi sicrhau caniatâd i ddod ag offer ac adnoddau brys i gefnogi'r ymdrech.

### Y daeargryn

Yn gynnar fore Llun 6 Chwefror tarodd y daeargryn ardal yn ne a chanolbarth Twrci a gogledd a gorllewin Syria. Cafwyd difrod enbyd i adeiladau mewn trefi, a marwolaethau di-rif. Yn fuan clywsom fod teulu o Syria sydd wedi ymgartrefu yn nhŷ capel eglwys y Priordy yng Nghaerfyrddin wedi colli chwech o'u perthnasau sef tad, mam a 4 o'u plant.

Hwn oedd y daeargryn gwaethaf yn Nhwrci ers daeargryn Erzincan yn 1939, a'r daeargryn gwaethaf yn Syria ers daeargryn Aleppo yn 1822. Mae'n bosib nad ydym yn gyfarwydd â'r rhan hwn o'r byd, ond yr hen enw ar Antakia, yw Antioch. Dyma leoliad un o'r eglwysi Cristnogol cynharaf gydag Eglwys Pedr

*parhad ar y dudalen gefn*

# Y weinidogaeth ddoe a heddiw (4)

Ym 1953 y cododd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg y comisiwn yr ydym wedi bod yn edrych ar ei adroddiad. Ei dasg oedd 'chwilio i sefyllfa y Weinidogaeth Heddiw', a chyhoeddodd ei adroddiad ym 1958.

Mae'r bedwaredd adran yn trafod 'Cyflwr a Chyfrифngau'r Eglwysi', ac yn nodi na allai 'pregethwr gymryd unrhyw wybodaeth Feiblaidd yn ganiataol gan ei gynulleidfa.' Hyd yn oed erbyn 1958, felly, yr oedd 'anwybodaeth o sylfeini'r Ffydd hyd yn oed ymhlith y ffyddloniaid.'

Er hynny, nodwyd bod 'lle canolog i bregethu yn ein traddodiad.' Dylai hynny, felly, arwain at wneud ymdrech fwriadol i godi ymwybyddiaeth y gynulleidfa o sylfeini'r ffydd. Yn wir, 'dylai fod cynllun addysgiadol i'r pregethu.'

### Adeiladau

O ran yr adeiladau, a chyfeirir yn benodol at 'gapeli mawrion cymoedd Morgannwg', dywedir bod y 'festri'n ddigon eang heddiw ar gyfer y ffyddloniaid mewn llawer man.' Yna, ychwanegir, 'Rhaid i'n pobl wynebu'r ffaith seml fod yr eglwysi hyn wedi cael gweinidogaeth gyflawn iddynt eu hunain am y tro diwethaf – yn ôl pob golwg.' Hynny yw, yr oedd yn amser i wynebu realiti pob sefyllfa, er mor dorcalonnus y gallai hynny fod.

### Amser llawn

Ymdrin â'r 'Weinidogaeth Amser Llawn' oedd yr adran nesaf. 'A fydd [y fath weinidogaeth] yn bosibl yn amgylchiadau yfory?' Mantais bendant i ffyniant yr eglwysi yw gweinidogaeth amser llawn, ond beth yw'r posibiliadau pan na fo hynny'n bosibl? Awgrymir dau beth: lluosogi eglwysi, hynny yw, creu gofalaethau er mwyn cael gwasanaeth gweinidog, neu, bodloni ar dderbyn gweinidogaeth achlysurol ar y Sul, ond hepgor unrhyw elfen o fugeiliaeth. Gwyddom erbyn hyn i rai eglwysi ddewis yr awgrym cyntaf ac i eglwysi eraill ddewis yr ail.

Yma, fe awgrymir, gwelwn dyndra sylfaenol y traddodiad Annibynnol; ar un llaw, y duedd i orbwysleisio ein hannibyniaeth, ac ar y llaw arall, gorfod ildio elfennau o'n hannibyniaeth er mwyn medru cydweithio ag eraill a galluogi trefn newydd i weithio. Ymatebir yn hallt yn yr adroddiad i'r rhai sydd am bwysleisio eu hannibyniaeth; 'Gwell ganddynt farw ar wahân nag uno i fyw.'



### Cynorthwyol


Beth yw'r posibiliadau o gyfeiriad 'Y Weinidogaeth Gynorthwyol', sef y chweched adran yn yr Adroddiad? Cyfeirir, yn y cyd-destun hwn, at 'y dystiolaeth am safon isel rhai pulpudau', ac yna daw un o baragraffau mwyaf diddorol yr holl Adroddiad i gyd. Caniatewch ei ddyfynnu yn ei gyflawnder.

> 'A ydyw'r syniad am bregethwyr cynorthwyol yn ddigonol? Oni ddylem synied am weinidogion cynorthwyol, nid pregethwyr yn unig? Meddylier am gylch o eglwysi dan ofal gweinidog amser llawn. Gwaith yr eglwysi hynny yw magu arweinwyr, pobl gyfrifol dros fuddiannau'r Deyrnas Nefol. Meddylier amdanynt yn gwasanaethu yn eu cylchoedd priodol – nid yn crwydro'r wlad yn unig i bregethu'n achlysurol. Dyma swydd draddodiadol yr henuriad ymhlith yr Annibynwyr – a dylid ceisio dychwelyd ati, beth bynnag for enw? Oni ddylid ffurfio cymdeithas felly dan nawdd yr Undeb ac arolygiaeth y Cyfundebau? Gellid trefnu hyfforddiant, e.e. Ysgol Haf, ar gyfer y gweithwyr hyn, a byddent yn gaffaeliad i'r weinidogaeth amser llawn ac yn atalfa ar rai anghymwys.'

Wel, wel! A ninnau wedi meddwl mai syniad newydd oedd codi arweinyddion yn yr eglwysi diweinidog pan gyhoeddwyd yr awgrym hwnnw fel rhan o Raglen Datblygu Annibynwyr Cymru yn 2010! Yr oedd yr awgrym wedi ei wneud yn ôl ym 1958 gan dri ar ddeg o weinidogion blaenllaw, profiadol a chyfrifol, ond wedi ei anghofio neu ei anwybyddu yn fuan wedi hynny.

Hyd yn oed heddiw, yn hwyr y dydd, nid yw'n rhy hwyr mewn llawer man i'r eglwysi gymryd y cam mentrus hwn a dewis un o'u plith i fod yn arweinydd cydnabyddedig. Siawns nad oes ymhlith y diaconiaid, neu'n sicr ymhlith y gynulleidfa, un, neu o bosibl fwy nag un, fyddai'n fodlon mynd i'r afael â'r gwaith. Os mai 'gweinidogaeth y doniau' yw'r traddodiad yr ydym yn ei arddel, pam nad ydym yn chwilio am ddoniau'n pobl ac yn eu hannog i ymgymryd â'r gwaith? Dyna ddylai ddigwydd o fewn yr eglwysi.
Nid yw'n rhy hwyr i wneud hynny'n awr; nid yw'r drws eto wedi cau'n llwyr.

**Geraint Tudur, Bangor**



Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 23 2023 RHIF 104

Gweddi dros Wcráin

cymorth cristnogol

# A wnaiff eich eglwys ymuno â ni mewn gweddi ar ddydd Sul, 26 Chwefror?

**Pen-blwydd y Rhyfel yn Wcráin**

Bydd 24 Chwefror yn nodi blwyddyn union ers dechrau'r rhyfel yn Wcráin. Rydyn ni wedi gweld sut mae'r ymosodiad gan luoedd Rwsia yn dinistrio cartrefi a rhyddid pobl Wcráin. Mewn ymateb, mae llawer o eglwysi a chefnogwyr Cymorth Cristnogol wedi rhoi gyda haelioni rhyfeddol, sydd wedi'n galluogi ni i weithio trwy ein partneriaid, i ddarparu gobaith ac i sicrhau fod pobl yn goroesi ac yn ailadeiladu. Diolch.

**Dod ynghyd ar gyfer Gweddi yng Nghymru:**
**Dydd Gwener, 24 Chwefror**

Rydyn ni'n gwahodd eglwysi ledled gwledydd Prydain a'r Iwerddon i ymuno mewn gweithred o dystiolaeth i weddïo dros Wcráin, am ddiwedd i'r gwrthdaro a thros bawb sydd wedi'u heffeithio fel canlyniad i'r rhyfel erchyll hwn. Ar ddydd Gwener, 24 Chwefror, bydd sawl cynulliad yn digwydd ledled y DU, gan gynnwys rhai yng Nghymru. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth: cymru@cymorth-cristnogol.org.

**Dydd Sul, 26 Chwefror**

Rydyn ni hefyd yn gwahodd eglwysi i ymuno mewn gweddi ac undeb ar ddydd Sul, 26 Chwefror.
Ystyriwch gymryd rhan mewn cyfnod o weddi, un ai yn ystod eich addoliad ar y Sul neu yn eich cymuned ar un ai dydd Gwener y 24ain neu ddydd Sul, y 26ain o Chwefror

**Syniadau am weddïo creadigol**

Fel rhan o'ch gwasanaeth, efallai yr hoffech lunio calonnau glas a melyn i bobl gael cofnodi eu gweddïau, a'u harddangos ar hysbysfwrdd.
Neilltuwch ychydig amser i fyfyrio a gweddïo dros y sefyllfa yn Wcráin wrth ichi blannu hedyn blodyn haul. Anogwch bobl i ddal ati i weddïo trwy gydol y misoedd sy'n dod bob tro y byddan nhw'n dyfrio eu blodyn haul.

**Gweddi dros Wcráin**

Dduw Mawr a Hollalluog, derbyn ein diolchgarwch am dy ras diddiwedd tuag aton ni. Clyw ymbil ein calonnau dioddefus dros wlad a phobl Wcráin, wrth iddyn nhw wynebu ymosodiad a gormes estron. Agor llygaid y rhai hynny sydd wedi'u meddiannu gan ysbryd twyll a thrais, fel eu bod yn arswydo wrth ystyried eu gweithredoedd. Sicrha fuddugoliaeth dros y grymoedd drwg sydd wedi codi a bendithia Wcráin gyda dy roddion o ryddid, heddwch, tangnefedd, a ffyniant.

Ymbiliwn arnat, O Dduw Trugarog, i edrych gyda gras ar y rhai hynny sy'n amddiffyn eu tir gyda'r fath wroldeb. Cofia'r mamau a'r tadau, y plant diniwed, y gweddwon a'r plant amddifad, yr anabl a'r diymadferth, y rhai sy'n ceisio lloches a noddfa, sy'n estyn allan atat ti ac at eu cyd-ddyn, gan chwilio am drugaredd a thosturi. Bendithia galonnau'r rhai sydd eisoes wedi dangos haelioni mawr a chydgefnogaeth, a'r rhai hynny sy'n paratoi i dderbyn eu brodyr a'u chwiorydd o Wcráin ar adeg angen mwyaf y wlad. Dwyn ni at ein gilydd fel dy blant, dy greadigaeth, a sefydlu o'n mewn dy nerth, dy ddoethineb a dy ddealltwriaeth. Boed mawl a gogoniant i ti, nawr a hyd byth, ac yn oes oesoedd. Amen.

**Cysylltwch â ni**

Cymorth Cristnogol,
Capel Tabernacl
81 Heol Merthyr
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 1DD
T: 029 2084 4646
E: cymru@cymorth-cristnogol.org
W: christianaid.org.uk



Ar y cyd, fel Cristnogion, yn yr ynysoedd hyn a chyda'r rhai hynny yn Wcráin, gweddïwn am derfyn i'r gwrthdaro hwn ac am heddwch yn ein byd.

Ymunwch gyda ni #GweddïwnDrosWcráin

**Lleoliadau ac amseroedd 24ain Chwefror 2023**

| | |
|---|---|
| Canolfan Noddfa, Penmaen-mawr | 10.00 o'r gloch |
| Eglwys y Santes Fair, y Waun | 14.00 o'r gloch |
| Adfeilion Eglwys y Santes Fair ger yr afon yn y Drenewydd neu, os yw'r tywydd yn wael, yng Nghanolfan Gristnogol y Cilgant | 16.00 o'r gloch |
| Sgwâr Nott, Caerfyrddin | 18.00 o'r gloch |
| Gweddïo ar Zoom – dolen gysylltu gan jweaver@christian-aid.org | 13.00 o'r gloch |
| ***Capel Bethesda, yr Wyddgrug (***nos Iau 23/2/23) | 19.30 o'r gloch |

# Apêl DEC Cymru'n codi £2.6 miliwn mewn 8 diwrnod – ond mae'r angen yn parhau

**Mae mudiadau ffydd DEC yn uno o blaid goroeswyr daeargrynfeydd, wrth i roddion i apêl Twrci-Syria DEC Cymru gyrraedd £2.6 miliwn mewn wyth diwrnod**

O'r eiliad y trawodd daeargrynfeydd dinistriol dde Twrci (a elwir bellach yn Türkiye) a gogledd-orllewin Syria, mae elusennau ffydd DEC (Pwyllgor Argyfyngau/ Disasters Emergency Committee) a'u partneriaid wedi bod yn ymateb drwy'r dydd a'r nos i ddiwallu anghenion brys. Mae o leiaf 41,000 o bobl wedi cael eu lladd, dros 100,000 wedi eu hanafu, a 17 miliwn wedi eu heffeithio.

Mae'r rhoddion i Apêl Daeargryn Twrci-Syria y DEC wedi cyrraedd £2.6m yng Nghymru, ac £88.1 miliwn ar lefel y Deyrnas Unedig mewn wyth diwrnod. Bydd y rhoddion yn cefnogi gwaith aelod elusennau'r DEC sy'n darparu cymorth hanfodol i blant a theuluoedd yn Nhwrci a Syria. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys £5 miliwn mewn arian cyfatebol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a rhodd o £300,000 gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd **Saleh Saeed, Prif Weithredwr y DEC**: 'Rydym wedi gweld cymunedau ffydd yn ymateb yn sydyn i gefnogi goroeswyr, yma yn y Deyrnas Unedig ac yn ardal y daeargryn. Yn y Deyrnas Unedig mae miliynau o bunnoedd wedi cael eu codi, a gwyddom fod y gefnogaeth yma eisoes yn achub bywydau.

'Nid yw daeargrynfeydd yn gwahaniaethu rhwng gwledydd na chredoau pobl. Ar draws yr ardaloedd a effeithiwyd, mae addoldai wedi agor eu drysau i'r rhai mewn angen, waeth beth fo'u ffydd neu genedligrwydd, i ddarparu lloches, bwyd, dŵr a dillad cynnes.

'Mae'r DEC yn ddiolchgar i bobl o bob ffydd – neu ddim ffydd – sydd wedi cefnogi apêl y DEC mewn modd mor hael, ac i'r holl fosgiau ac eglwysi am eu cefnogaeth yn Nhwrci, Syria ac yma yn y Deyrnas Unedig.'

Mae elusen DEC Tearfund yn Aleppo yn darparu lloches, bwyd poeth, dŵr a dillad cynnes i tua 2,000 o bobl.

Meddai **Cynan Llwyd, Pennaeth Tearfund Cymru**: 'Agorodd eglwys sy'n bartner i Tearfund yn Aleppo ddrysau ei hadeiladau i gynnig lloches a chefnogaeth achubol i filoedd o bobl. Gwyddom pa mor hael y bu ymateb pobl ffydd yng Nghymru dros y blynyddoedd, ac rydym yn eu hannog i barhau i gefnogi'r apêl hon. Mae cefnogaeth pobl ffydd yng Nghymru wirioneddol yn achub bywydau. Galwn arnynt hefyd i weddïo dros bobl Syria a Thwrci. Rydyn ni'n gwybod bod gweddi yn gwneud gwahaniaeth. Rydym yn gweddïo dros yr ymateb brys, dros y bobl sydd wedi eu heffeithio gan y daeargryn, dros ein partner eglwysig ac am heddwch.'

Mae elusen DEC**, Cymorth Cristnogol**, wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid lleol ar draws gogledd-orllewin Syria ers 2012, mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu rheoli gan y llywodraeth, ardaloedd sy'n brin o adnoddau ac wedi eu tan-wasanaethu. Cafwyd eisoes achosion o golera yma, a allai ledaenu'n gyflym heb ddŵr yfed glân.

Y prif anghenion yw citiau gaeaf sy'n cynnwys eitemau fel blancedi, matresi, dillad cynnes, parseli bwyd a deunyddiau gwresogi. Roedd partneriaid y mudiad yn yr ardal eisoes wedi llwyddo i brynu gwerth £40,000 o becynnau'r gaeaf gydag arian Cymorth Cristnogol ac fe ddosbarthwyd y rhain yn syth.

Ychwanegodd **Nan Powell-Davies, Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru**: 'Mae ein neges yn un syml: cydsafwn ochr yn ochr â phobl sy'n dioddef. Rydym yn hynod ddiolchgar am haelioni pobl yng Nghymru, a byddwn hefyd yn annog pobl ffydd i weddïo. Gweddïwch am gysur a nerth yn wyneb colled a phoen, ac am ddoethineb a dewrder yn y penderfyniadau a wnaed yn ystod yr ymateb dyngarol.

'Gallwn ddangos ein bod yn cydsefyll gyda phobl yn y ddwy wlad sydd angen ein gweddïau a'n gweithredoedd – mae pob gweddi, pob rhodd, pob gweithred yn dod â gobaith.'

Mae elusen DEC, CAFOD, wedi cefnogi partneriaid yn Syria ers y gwrthdaro 12 mlynedd yn ôl. Felly roedd gan yr elusen bartneriaid eisoes ar lawr gwlad oedd yn gallu ymateb yn syth pan drawodd y daeargryn. Mae hyn wedi cynnwys darparu lloches, bwyd, dŵr, blancedi cynnes a chitiau gaeaf i helpu pobl i ymdopi â thymheredd rhewllyd.

Dywedodd **Christine Allen, Cyfarwyddwr CAFOD**, asiantaeth cymorth swyddogol yr Eglwys Gatholig: 'Mae pobl Syria wedi cael eu poenydio gan ryfel ers dros ddegawd. Roedd teuluoedd eisoes wedi colli cymaint, a llawer wedi colli eu cartrefi, eu bywoliaeth a'u hanwyliaid. Mae dioddef daeargryn, ar ôl wynebu cymaint eisoes, yn dorcalonnus.

'Mae'n hanfodol ein bod yn cofio holl ddioddefwyr y daeargryn dinistriol hwn yn Nhwrci a Syria yn ein gweddïau, ac rwy'n gweddïo y gall pobl Syria ailadeiladu eu bywydau a chanfod heddwch a diogelwch o'r diwedd. Gweddïwn hefyd dros ein partneriaid lleol, pobl Syria, sy'n rhoi cymaint o'u hamser a'u hymroddiad yn ystod y cyfnod anodd hwn.'

Mae elusen DEC **Islamic Relief Worldwide** yn dweud bod effaith y daeargrynfeydd hyn wedi bod yn ddinistriol ac y bydd yn effeithio ar fywydau am genedlaethau i ddod.

Dywedodd **Waseem Ahmed, Prif Swyddog Gweithredol Islamic Relief Worldwide**: 'O fewn oriau i'r daeargrynfeydd daro, ymatebodd timau Islamic Relief yn Türkiye a Syria. Maen nhw wedi bod yn gweithio bob awr o'r dydd a'r nos, gan roi cefnogaeth a chymorth i nifer o deuluoedd.

'Ar draws Syria a Türkiye, mae pobl yn wynebu eu horiau mwyaf tywyll o ddioddefaint a chaledi. Yn y cyfnod anodd hwn rydym yn pwyso ar ein ffydd am y nerth sydd ei angen mor daer a gweddïo am drugaredd Allah ar bawb a effeithiwyd. Rwy'n hynod ddiolchgar am y don o haelioni a welwyd yn wyneb yr apêl.'

Mae elusen DEC World Vision UK yn cynnull ei thimau amddiffyn plant at ei gilydd i sicrhau bod plant sy'n cael eu heffeithio gan yr argyfwng hwn, gan gynnwys y rhai sy'n amddifad neu wedi'u gwahanu oddi wrth y rhai sy'n gofalu amdanynt, yn ddiogel ac yn derbyn gofal.

Dywedodd **Mark Sheard, Prif Swyddog Gweithredol World Vision UK**: 'Mae argyfwng dyngarol o'r raddfa hon yn galw am ymateb dyngarol sy'n hanesyddol yn ei haelioni, ac rydym mor ddiolchgar i'r rhai sydd wedi cefnogi apêl y DEC hyd yn hyn.

'Rydym yn annog pobl ffydd i barhau i gadw Syria a Türkiye yn eu gweddïau. Safwn gerbron Duw a galarwn gyda'r rhai sydd wedi colli anwyliaid neu gartrefi. Gofynnwn i Dduw ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen ar y rheini sy'n cynnig cymorth dyngarol hanfodol i bobl sydd mewn dirfawr angen.'

Dim ond am eiliadau y parhaodd y daeargrynfeydd, ond bydd yr ôl effeithiau'n cael eu teimlo am flynyddoedd. Bydd eich cefnogaeth yn helpu elusennau DEC i gynyddu eu gwaith a darparu cefnogaeth nawr ac yn y misoedd i ddod.

Plis, cyfrannwch beth allwch chi ar: dec.org.uk.

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 19 Y Duw sy'n gweld

### Darllen: Genesis 16:6–16

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 11)

Yr wyf wedi nodi nad oes neb yn dod i'r blaen o ran y tri chymeriad yn yr hanes yma. Tebyg mai'r gorau y gellir ei ddweud yw nad oedd Sarah mor euog ag Abraham, ac nad oedd Hagar mor euog â Sarah. O ran Hagar, mae'n debyg ei bod hi wedi dychwelyd gydag Abraham a Sarah yn dilyn eu taith i'r Aifft, oherwydd cawn ddisgrifiad ohoni fel 'Eifftes' yn adnod 1. Roedd yn 'eiddo' Sarah, rhywbeth sy'n ddieithr iawn i ni ei ddeall bellach, ond rhywbeth fyddai'n gwbl dderbyniol o fewn y diwylliant hwn, ac yn wir fyddai'n dderbyniol am ganrifoedd ar ôl hyn. Does dim cyfeiriad o gwbl at yr hyn yr oedd Hagar yn ei feddwl o awgrym Sarah, dim cyfeiriad chwaith at ei theimladau am gael cyfathrach ag Abraham, ac fel y dywedais yr wythnos diwethaf does dim cyfeiriad ati hi fel person, dim ond fel morwyn. Ond, wedi iddi ddod yn feichiog, fe glywn fod Sarah wedi mynd yn ddibris yng ngolwg Hagar, un o'r pethau hynny y mae llyfr y Diarhebion, wrth gyfeirio at y pethau sy'n cynhyrfu'r ddaear, yn ei nodi: morwyn sy'n disodli ei meistres. Beth bynnag, mae Sarah mor gas tuag ati fel bod Hagar yn ffoi yn y diwedd (adnod 6).

Tebyg fod ei sefyllfa bellach yn un y medrwn ei deall yn iawn. Roedd yn forwyn mewn gwlad ddieithr, a hynny mewn diwylliant oedd â meddwl isel iawn o ferched. Bellach mae'n feichiog; mae ar ei phen ei hun, sefyllfa oedd yn ei gwneud yn gwbl ddinod a bregus. Yn y cyflwr yma o wrthodiad mae'n teithio i lawr tua'r Aifft, yn ôl at ei theulu a'i chydnabod, mae'n debyg; ond mae'n amheus a fyddai wedi cael croeso yno chwaith. Anodd dychmygu'r syndod felly i hon pan mae 'angel yr Arglwydd' yn ymddangos iddi – un oedd yn ei hadnabod, yn adnabod ei hamgylchiadau, yn adnabod ei chyflwr, yn adnabod ei hangen, yn adnabod ei henw!

Nid cwestiwn yn gofyn am wybodaeth yw adnod 8; mae Duw yn gwybod yn iawn lle rydym. Mae'n gwestiwn sy'n rhoi hyder inni yn niddordeb y nefoedd yn ein sefyllfa ni ac yn rhoi cyfle i ni gydnabod i ni ein hunain ac i Dduw ble rydym. Mae esiampl arall o'r cwestiwn hwn yn ganolog i hanes Adda yn yr ardd, ym mhennod 3:9: 'Ond galwodd yr Arglwydd Dduw ar y dyn gan ddweud wrtho, "Ble 'rwyt ti?"' Yn dilyn y cwestiwn ac anogaeth i ddychwelyd at Sarah, cawn yr addewid iddi, addewid am ei disgynyddion. Yn Genesis addewid i'r Patriarchiaid yw hwn yn arferol: mae Abraham yn cael addewid am ei deulu, ac mae ei fab, Isaac, a Jacob yn cael yr un addewid. Ond mae yna addewid chwyldroadol yn y cyd-destun: mae'r addewid yn dod i ferch. Ceir addewid o amddiffyn a bendith (adn. 10), a phob tro y byddai'n galw ar ei mab, byddai'n galw i gof ystyr ei enw – Ismael, 'yr Arglwydd sy'n clywed' (adn. 11).

Os oes rhyfeddod cyd-destunol yn y ffaith fod Duw yn addo bendithio teulu'r ferch yma, mae mwy i ddod. Dyma'r enghraifft gyntaf yn y Beibl o berson yn rhoi enw i Dduw. Mae'r enw, *El-roi*, yn golygu 'y Duw sy'n gweld', ac mae'n enwi'r ffynnon i gydnabod hynny. Ystyr *beer lahai roi* yw 'ffynnon yr un sy'n byw ac yn fy ngweld'. Er nad yw cyfieithiad y Beibl Cymraeg Newydd yn eglur yma, yn y gwreiddiol yr hyn mae Hagar yn ei ddweud yw: 'yma yr wyf wedi gweld cefn yr un sy'n fy ngweld i'.

Onid yw'n rhyfeddol fod y fam sengl yma yn cael ei gweld gan Dduw, yn cael ei chyfrif, yn werthfawr, yn cael ei pharchu fel unigolyn sy'n dwyn delw ei Chreawdwr. Mae'n debyg nad oedd wedi ei gweld fel hyn gan neb arall: eiddo i Sarah oedd hi, neu, hyd yn oed yn waeth, dim mwy na rhyw beiriant deor! Ond gwelodd Duw hi; fe'i gwelodd, fe'i clywodd. Roedd yn ei hadnabod, yn deall ei hanes, ac mae'n siarad i mewn i'w hofnau i ateb ei sefyllfa, a hynny wrth ymyl y ffynnon hon. Mae'n debyg fod yna gysgod o wraig arall ddaeth at ffynnon yn Samaria, a chwrdd â'r Arglwydd, un a oedd yn ddiweddarach am rannu â'i chyfeillion: 'Dewch i weld dyn a ddywedodd wrthyf bopeth yr wyf wedi ei wneud. A yw'n bosibl mai hwn yw'r Meseia?' (Ioan 4:29)

Mae gofal Duw o'r fam a'r plentyn hwn yn rasol a rhyfeddol. Os oedd ei hamgylchiadau'n peri i Hagar golli pob gobaith, mae Duw yn dod ati i dawelu ei hofnau, i siarad, i gyfarfod â'i hangen, gydag addewid y byddai'n cyfarfod ag angen y mab yr un modd. Pan mae'n gorfod gadael eto am yr anialwch ym mhennod 21, cawn Dduw yn ei hatgoffa am ei addewid iddi (21:17) a'r addewid i ddiogelu Ismael (21:20).

1. Fel gweinidog, yr oedd pobl yn gwerthfawrogi pan fyddwn yn eu holi am eu plant, ond yn fwy gwerthfawrogol os oeddwn yn eu holi am y plant ac yn dangos fy mod yn gwybod eu henwau. Sut medrwch chi, a sut gall eich eglwys, weithio at sicrhau bod y bobl sydd o'ch amgylch yn gwybod eich bod yn eu hadnabod wrth eu henwau?

2. I raddau helaeth iawn, mae Hagar ar drugaredd ei hamgylchiadau. Doedd fawr y medrai ei wneud am y diwylliant, fawr y medrai wneud am Sarah ac Abraham, a bellach fawr y medrai ei wneud am wynebu bywyd fel mam ddibriod. Meddyliwch am sefyllfaoedd lle rydych wedi ceisio rhesymau am amgylchiadau pobl, yn hytrach na derbyn bod yna bobl ar drugaredd eu hamgylchiadau. Sut mae hyn yn newid eich agwedd atynt?

3. Mae Duw yn nesáu at Hagar, i bob golwg, yn gwbl ddigymell. Yn Ioan 4, lle cawn hanes y wraig o Samaria, dywedir am Iesu: 'Ac yr oedd yn rhaid iddo fynd trwy Samaria' (adn. 4). Nid daearyddiaeth, ond ei ewyllys grasol, oedd y tu ôl i hyn. Sut mae gras Duw at Hagar, yn ei gweld, yn ei chlywed, yn ateb ei hangen, am ein symbylu ni i estyn y gras hwnnw drwy fynd allan o'n ffordd i rannu gras Iesu â phobl?

S4C **_Dechrau Canu, Dechrau Canmol_**
**Sul, 26 Chwefror, am 7.30yh**
Wcráin: noddfa yng Nghymru
Mae yna flwyddyn ers i fyddin Rwsia ymosod ar Wcráin. Yma yng Nghymru mae teuluoedd wedi agor eu calonnau a'u haelwydydd i rai mewn angen. Cawn gyfarfod rhai o drigolion Wcráin a gafodd eu heffeithio gan y rhyfel ac sydd bellach yn byw yng Nghymru.

BBC radio cymru **_Caniadaeth y Cysegr_**
**Sul, 26 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**
Gwladgarwch – R. Alun Evans yn cyflwyno emynau ar y thema Gŵyl Ddewi

**Sul, 26 Chwefror, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Mary Stallard, Esgob Cynorthwyol Bangor

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Salm 61

Wrth gychwyn y myfyrdod hwn, darllenwch Salm 61.

**Gweddïwn:** *Arglwydd, wrth i mi ddarllen dy eiriau di gweddïaf y bydd yr Ysbryd Glân yn fy helpu i ymaflyd â'r geiriau, fel fy mod yn clywed llais Duw ac yn gweld perthnasedd y Salm i'm bwyd. Yn enw Iesu. Amen.*

Rydym yn byw mewn cyfnod eithriadol o ansefydlog, yn ysbrydol, yn wleidyddol, yn gymdeithasol, yn economaidd a hefyd o ran dyfodol y cread ei hun. Gallwn deimlo fod y cwbl yn siglo ac nad oes obaith inni a bod y tywyllwch yn cau amdanom. Ond yn y Salm hon fe geir sicrwydd yn Nuw ei hun. Yn ei natur a'i briodoleddau, ei gariad a'i ffyddlondeb. Fel Cristnogion rydym i edrych ar fywyd yng nghyd-destun Duw ac nid edrych ar Dduw yng nghyd-destun ein bywyd.

Yn y Salm hon mae'r Salmydd yn cadarnhau ein ffydd ac yn tawelu unrhyw ofnau sydd gennym trwy ein hannog i fyfyrio ar Dduw. Ysgrifennwyd Salm 61 mewn cyfnod tywyll ym mywyd Dafydd. Roedd ar ffo un ai oddi wrth y Brenin Saul neu ei fab Absalom. Roedd y ddau ar gyfnodau gwahanol am ei waed. Yma mae Dafydd yn atgoffa ei hun o natur Duw a'i ofal dros ei bobl. Mor bwysig yw treulio amser yn gyson i fyfyrio ar Dduw wrth i ni fyw ein bywydau. Os na wnawn hynny y mae ofn, anobaith a gorbryder yn mynd yn drech na ni. Wrth fyfyrio ar Dduw, fel y gwelwn yma, fe ddaw sicrwydd ynghanol problemau ac mae hynny'n ein nerthu i ddyfalbarhau.

## Adnod 1 a 2

Dewch inni gerdded trwy ran gyntaf y Salm, gymal wrth gymal:

1Clyw fy nghri, O Dduw,
a gwrando ar fy ngweddi;
2o eithaf y ddaear yr wyf yn galw arnat,
pan yw fy nghalon ar suddo. (BCND)

Ar ddechrau'r Salm mae Dafydd yn ymbilio yn bersonol ar i Dduw wrando ar ei weddi ynghanol ei drafferthion. Wrth i'w elynion chwilio amdano er mwyn ceisio ei niweidio a'i ladd. Dywed 'Clyw fy nghri', (BCND) 'llefain' (BWM) sy'n awgrymu person yn gweiddi mewn sefyllfa o angen. Ac yna mae'n gofyn i Dduw i wrando ar ei weddi. Mae addewid llawn cysur i ni gan yr Iesu, meddai yn, Ioan 14:

> Beth bynnag a ofynnwch yn fy enw i, fe'i gwnaf, er mwyn i'r Tad gael ei ogoneddu yn y Mab. Os gofynnwch unrhyw beth i mi yn fy enw i, fe'i gwnaf.
>
> Ioan 14:13–14

Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn troi at Dduw ym mhob amgylchiad mewn gweddi, dydy ddim o bwys pa mor ddyrys yw'r broblem, dydy ddim o bwys pa mor isel yr ydym yn teimlo, dydy ddim o bwys os nad ydym yn deall beth sydd yn digwydd. Oherwydd yn y gymdeithas gyda Duw y mae nerth a chynhaliaeth.

Rhaid bod Dafydd yn cuddio yn rhywle yn bell o gartref, yn y creigiau neu mewn ogof ddigysur. Meddai 'o eithaf y ddaear yr wyf yn galw arnat, pan yw fy nghalon ar suddo.'

Roedd yn ddigalon ac yn isel ei ysbryd – eto mae'n galw ar Dduw i wrando arno ac i fod yn help iddo yn ei gyfyngderau. Pan mae'ch calon yn suddo a phan mae tywyllwch anobaith yn cau amdanoch, galwch ar Dduw yn enw'r Iesu a bydd ef yn trugarhau ac yn nerthu. Sut? Wel, gyda'i bresenoldeb a'i Ysbryd, gyda'i addewidion sicr a chyda'i gariad rhyfeddol:

> Yna cawn y geiriau cyfarwydd – Arwain fi at graig sy'n uwch na mi;
>
> Salm 61:2

Y darlun ddaeth i'm meddwl wrth ddarllen yr adnod hon oedd o blentyn gyda chi yn agos ato yn peri dychryn. Yna mae'r plentyn yn dychryn ac yn agosáu at ei fam. "Clinging" fyddai'r gair Saesneg. *Cluro* oedd mam yn galw hyn. Yna mae'r fam yn ei godi ac yn ei osod ar wal, fel na all y ci ddod yn agos ato. Mae Dafydd yn gofyn i Dduw ei godi i dir uwch a diogel. Efallai ei fod yn meddwl yng nghyd-destun môr neu lifogydd a'r dŵr yn cau amdano a bod angen tir uwch. A ble mae'r tir uchel? Duw ei hun ydyw a'r diogelwch a gawn trwy'r Iesu. Hon yw'r adnod ysbrydolodd Morswyn (1850–93) i ysgrifennu ei emyn cofiadwy:

Arglwydd Iesu, arwain f'enaid
at y graig sydd uwch na mi,
craig safadwy mewn tymhestloedd,
craig a ddeil yng ngrym y lli;
llechu wnaf yng nghraig yr oesoedd,
deued dilyw, deued tân,
a phan chwalo'r greadigaeth
craig yr oesoedd fydd fy nghân.

Mae'r Iesu yn graig sydd yn ein hachub ac yn ein diogelu hyd dragwyddoldeb. Swatiwch yn ei gariad heddiw ac ymlaciwch, mae Duw yn ein caru.

## Adnod 3 a 4

3oherwydd buost ti'n gysgod imi,
yn dŵr cadarn rhag y gelyn.
4Gad imi aros yn dy babell am byth,
a llochesu dan gysgod dy adenydd.

Yma mae'n cydnabod ei fod wedi profi diogelwch Duw yn y gorffennol, 'buost ti'n gysgod i mi,' meddai. Defnyddia 4 darlun i ddisgrifio hyn sef, cysgod, tŵr, pabell ac adenydd.

**Cysgod** – rhag gwres yr haul, y gwynt a'r stormydd. Mae'r Salmydd yn sôn fwy nag unwaith am hyn,

> 'Yr Arglwydd yw dy geidwad: yr Arglwydd yw dy gysgod ar dy ddeheulaw. Ni'th dery yr haul y dydd, na'r lleuad y nos.
>
> Salmau 121:5, 6

**Tŵr** – Yn yr hen fyd roedd tyrrau yn lleoedd diogel rhag crafangau gelynion, eu saethau a'u cleddyfau ac roedd yn hawdd eu hamddiffyn hyd ddyfodiad powdr gwn.



**Pabell** – Efallai ei fod yn meddwl yma am y Tabernacl neu am babell yn gyffredinol. Wrth deithio roedd pabell yn hanfodol ar gyfer gwres, cysur a chysgod ar eich teithiau.

**Adenydd** – fel iâr yn gwarchod ei chywion gyda'i hadenydd felly y mae'r Arglwydd yn ei gariad yn ein gwarchod ninnau.



Darluniau byw sy'n dangos ac esbonio natur y Duw a'i ofal dros ei bobl. Nid oes dim yn cryfhau ffydd y Cristion yn fwy na chofio daioni Duw tuag ato yn y gorffennol. Treuliwch amser yn myfyrio ar natur Duw.

# Barn Annibynnol

## Crychdonnau

Pan oeddwn yn blentyn byddwn wrth fy modd yn mynd gyda fy nhad at afon Sawdde ar gomin Llangadog i daflu cerrig i'r dŵr. Roedd Dad yn dipyn o feistr ar gael cerrig i neidio dros arwyneb y dŵr o un ochr y lan i'r llall. Hyd yn oed yn y mannau mwyaf llydan ar yr afon, byddai'n llwyddo i gael y garreg i'r ochr draw ar ôl tair i bedair naid ac weithiau ar ôl pump. Roedd Dad yn chwarae criced ac yn gyfarwydd â throi'r bêl galed i onglau a fyddai'n sicrhau bod y bêl yn gwibio'n gelfydd drwy'r awyr ar gyflymdra a fyddai'n trechu'r batiwr. Roedd y sgiliau taflu pêl yn helpu i fedru sgimio'r garreg heb os.

### Pan oeddem yn blant

I ni fel plant, roedd rhaid ymarfer y sgil hwn wrth gwrs. Taflu cerrig mawr hir i'r awyr, eu troi wrth i ni eu codi fel eu bod yn troelli i'r awyr a glanio'n ffrwydrad i'r dŵr. Roedd hwyl yn ceisio cael y cerrig mawr hyn i lanio nid nepell o un arall o'r teulu fel eu bod yn cael gwlychiad go iawn. Ond tipyn yn dipyn, byddai'r sgiliau'n gwella, yr onglau taflu'n cael eu mireinio a'r sgimio'n dod yn haws bob tro.

Y gamp arall o daflu'r cerrig hir oedd gweld pa mor bell fyddai'r crychdonnau'n gallu cyrraedd. Sawl crych fyddai'n cael eu ffurfio a pha mor bell oeddynt yn mynd? Roedd yn hynod anodd cyfrif y cylchoedd hyn gan eu bod yn diflannu i donnau a llif y dŵr mor hawdd.

### Methiant?

Roedd darllen Barn Annibynnol Dewi M. Hughes, 9 Chwefror, yn ddiweddar wedi codi trafodaeth rhyngom. Roeddwn wedi cwestiynu ei ddefnydd a'i ganfyddiad o fethiant. Tra fy mod i'n cydnabod yn llwyr y sefyllfa a'r heriau yr oedd yn sôn amdanynt, y cyfleoedd a gollwyd a sut yr ydym i ddelio â hyn wrth i amser fynd yn ei flaen, gallaf i ddim derbyn taw methiant fu'r ymdrechion!

Ers i mi gychwyn fel athrawes yn y 90au, dof ar draws nifer o gyn-ddisgyblion mewn digwyddiadau ac yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol. Daeth neges yn ddiweddar gan ffrind oedd wedi fy nhagio mewn neges gan ffrind iddi hi oedd yn gyn-ddisgybl i mi. Yn y llif o negeseuon, gwelais fy enw a sylwad gan y cyn-ddisgybl am brofiad a gafodd hi yn yr ysgol ynghylch trefniant noson rieni, a sut y gwnes i ddweud rhywbeth a wnaeth iddi fedru dygymod â sefyllfa pan yr oedd popeth arall o'i chwmpas yn cau amdani. Rhaid i mi ddweud nad oeddwn yn cofio'r amgylchiadau gan fod sgwrs trefniant noson rieni yn rhywbeth byddwn i fel athrawes yn ei rhoi degau o weithiau. Doeddwn ni heb sylweddoli y byddai fy ngeiriau'r dydd hwnnw yn cael cymaint o effaith ar y person hwn.

### Gweld gwerth yr ymdrech

Yn yr un modd, dydyn ni ddim yn gallu gwybod pa mor bell y mae ein llwyddiannau, ein methiannau ond yn bwysicach ein hymdrechion yn cyrraedd ac yn wir, pryd amlygir eu heffaith – os o gwbl! Mae'n bwysig wrth gwrs ein bod yn medru gweld gwerth ein hymdrechion i'n hannog ni ymhellach. Wfft i fethiannau ddweda i!

Trof at ddwy adnod pan ddaw cyfnodau lle nad yw fy ymdrech yn amlwg i eraill. Gobeithio cewch gryfder ynddynt hefyd.

> A dyn ni'n gallu bod yn llawen hyd yn oed pan dyn ni'n dioddef, am ein bod ni'n gwybod fod dioddefaint yn rhoi'r nerth i ni ddal ati. Mae'r gallu i ddal ati yn cryfhau ein cymeriad ni, a dyna sy'n rhoi i ni'r gobaith hyderus sydd gynnon ni. Dŷn ni'n gwybod y byddwn ni ddim yn cael ein siomi yn y gobaith yna, am fod Duw eisoes wedi tywallt ei gariad yn ein calonnau drwy roi'r Ysbryd Glân i ni!
>
> Rhufeiniaid 5:3–5

> Ond dywedodd wrthyf, 'Digon i ti fy ngras i; mewn gwendid y daw fy nerth i'w anterth.' Felly, yn llawen iawn fe ymffrostiaf fwyfwy yn fy ngwendidau, er mwyn i nerth Crist orffwys arnaf. Am hynny, yr wyf yn ymhyfrydu, er mwyn Crist, mewn gwendid, sarhad, gofid, erledigaeth, a chyfyngder. Oherwydd pan wyf wan, yna rwyf gryf.
>
> 2 Corinthiaid 12:9–10

**Elin Maher**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## DYDD GWEDDI'R BYD 2023 TAIWAN

Cynhelir dydd Gweddi'r Byd ddydd Gwener, 3 Mawrth

Thema: 'Clywais am eich ffydd'

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gael yn Gymraeg drwy e-bostio Mary Thomas: rema.thomas@btinternet.com.

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gefndir Taiwan, 20 sleid gyda theitlau Cymraeg ynghyd â sgript Cymraeg [Taiwan Presentation Welsh Slides Download with Welsh script] ar gael o'r Swyddfa Ganolog drwy e-bostio office@wwdp.org.uk

Pris y PowerPoint Saesneg yw £2. ond medrwch sicrhau'r lawr lwythiad Cymraeg ond i chi gyfrannu at eich casgliad lleol.

Deunydd ar gyfer plant i'w cael yn rhad ac am ddim i'w lawr lwytho oddi ar y wefan: www.wwdp.org.uk

**Beti-Wyn James, Carys Ann**
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Ymdrech ddyngarol yn Nhwrci a Syria – *parhad*

ar y Graig yno yn un o'r eglwysi Cristnogol hynaf yn y byd. Dwy dref arall a effeithiwyd yw Mersin ac Adana sydd wrth ymyl Tarsus, sef cartref yr apostol Paul.

Meddai Ertan Çevì, Llywydd Ffederasiwn Eglwysi Bedyddiedig Twrci: 'Mae ein gwlad mewn sioc fawr. Mae llawer o adeiladau wedi'u difrodi a bu'n rhaid i filoedd adael eu cartrefi. Mae'n oer iawn yma, ac yn bwrw eira yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd a effeithiwyd, ac mae'r ffyrdd hefyd wedi'u difrodi'n ddifrifol. Mae hyn yn gwneud y chwilio a'r achub yn fwy anodd. Gweddïwch dros ein gwlad a thros y rhai a gollodd eu hanwyliaid. Gweddïwch hefyd bydd y gefnogaeth ddyngarol sydd eu hangen a'r cyfarpar argyfwng yn ein cyrraedd yn gyflym.'

### Cefnogaeth i apêl DEC

Y flaenoriaeth bellach yw sicrhau cymorth dyngarol cyflym ac effeithiol. Ar ddydd Iau Chwefror 9fed cyhoeddwyd bod mudiad DEC (Disasters Emergency Committee), yn lansio apêl argyfwng. Cafwyd addewid o £2 miliwn gan lywodraeth San Steffan a £300,000 gan Senedd Cymru. Wrth lansio apêl DEC Cymru yn y Senedd, dywedodd Peredur Owen Griffiths AC, 'Mae'r dinistr yn Nhwrci a Syria yn dorcalonnus, gyda miloedd o bobl yn colli anwyliaid yn sydyn yn y ffyrdd mwyaf ysgytwol. Mae angen arian ar frys i gefnogi teuluoedd gyda chymorth meddygol, lloches brys, bwyd a dŵr glân mewn tywydd gaeafol, rhewllyd. Ar ôl siarad â chymunedau Twrcaidd a Syriaidd yn fy rhanbarth mae'r gofid a'r tor calon yn treiddio yn ddwfn i mewn i'n cymunedau ni yma yng Nghymru.'

### Gweddi

Apeliwn felly arnoch fel darllenwyr *Y Tyst* i ymateb yn raslon ac yn weddigar. Gweddïwn dros bawb sy'n galaru am anwyliaid a gollwyd a dros bawb a anafwyd, dros y rhai sy'n bryderus wrth ddisgwyl newyddion am anwyliaid sydd ar goll, a dros y rhai y dinistriwyd eu cartrefi a'u cymunedau.










### Cyfrannu

Hoffem eich annog i gyfrannu hyd at eithaf ein gallu i ymdrech DEC. Maent yn nodi bod 17 MILIWN o bobl yn byw yn yr ardal yr effeithiwyd arni, gyda llawer ohonynt angen cymorth brys am loches, bwyd a chymorth meddygol. Noda DEC mai arian sydd ei angen ar hyn o bryd, er mwyn iddynt brynu'r hyn sydd ei angen ar fyrder.

**Aled Davies**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*